In my letter to you of 1 September and my statement to Parliament of 12 September, I set out why the Scottish Government would not be able to recommend that Parliament give its consent to the European Union (Withdrawal) Bill, as it is currently drafted. A particular problem with the Bill is its failure to reflect the principles of devolution. The Scottish Government has been working with the Welsh Government to prepare a set of amendments to the Bill which would, if made, turn the Bill into one that properly respects devolution and ensures that the Scottish Parliament and the National Assembly for Wales do not have their competence restricted by EU withdrawal.

These amendments are attached, along with a note that summarises their purpose and effect. The same amendments have been sent by Professor Mark Drakeford AM, the Cabinet Secretary for Finance and Local Government in the Welsh Government, to Huw Irranca-Davies AM, Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

The restrictions in clause 11 of the Bill apply to many areas of Scottish devolved responsibility vital to the success of our country, such as agriculture, the environment, fisheries, forestry, research, or justice co-operation. The restrictions have the effect that the Scottish Parliament would have no say over what is done with these important policy areas after EU withdrawal.

There is considerable interest in the over 100 areas that I indicated were affected by these restrictions. I have therefore annexed to this letter a working summary of these areas, in order to inform your consideration of these matters. I should be clear that the list represents an initial assessment by the UK Government of where EU competences intersect with devolution and which therefore would be affected by the restrictions in the Bill.

The UK Government prepared the list in order to inform discussion between the Scottish and UK Governments about where it may be necessary to agree common frameworks.

The Scottish Government is clear that any policy areas within devolved competence, carried out at EU level, should return to the Scottish Parliament in the event the UK leaves the EU. Given the way the European Union (Withdrawal) Bill is drafted, the extent of the list presented to the Scottish Government illustrates the scale of potential UK Government control over devolved policy areas.

As I made clear in my statement, the Scottish Government recognises that there may be the need for frameworks in the future and we are in discussion with the UK Government and the other devolved administrations to agree how such consideration might be taken forward. We will, however, only be able to agree frameworks based on respect for devolution, including the existing well established arrangements for co-operation, and not on the basis of the Bill as it stands.



**MICHAEL RUSSELL**

## **Powers returning from the EU that intersect with the devolution settlement in Scotland**

1. Agricultural Support
2. Agriculture - Fertiliser Regulations
3. Agriculture - GMO Marketing & Cultivation
4. Agriculture - Organic Farming
5. Agriculture - Zootech
6. Animal Health and Traceability
7. Animal Welfare
8. Aviation Noise Management at Airports
9. Blood Safety and Quality
10. Carbon Capture & Storage
11. Chemicals regulation (including pesticides)
12. Civil judicial co-operation - jurisdiction and recognition & enforcement of judgments in civil & commercial matters (including B1 rules and related EU conventions)
13. Civil judicial co-operation - jurisdiction and recognition & enforcement of judgments instruments in family law (including BIIa, Maintenance and civil protection orders)
14. Civil judicial cooperation on service of documents and taking of evidence
15. Criminal offences minimum standards measures - Combating Child Sexual Exploitation Directive
16. Control of major accident hazards
17. Cross border mediation
18. Data sharing - (EU fingerprint database (EuroDac))
19. Data sharing - European Criminal Records Information System (ECRIS)
20. Data sharing - False and Authentic Documents Online (FADO)
21. Data sharing - passenger name records
22. Data sharing - Prüm framework
23. Data sharing - Schengen Information System (SIS II)
24. Efficiency in energy use
25. Elements of Reciprocal Healthcare
26. Elements of the Network and Information Security (NIS) Directive
27. Elements of Tobacco Regulation
28. Energy Performance of Buildings Directive
29. Environmental Impact Assessment (EIA) Directive
30. Environmental law concerning energy planning consents
31. Environmental law concerning offshore oil & gas installations within territorial waters
32. Environmental quality - Air Quality
33. Environmental quality - Chemicals
34. Environmental quality - Flood Risk Management
35. Environmental quality - International timber trade (EUTR and FLEGT)
36. Environmental quality - Marine environment
37. Environmental quality - Natural Environment and Biodiversity
38. Environmental quality - Ozone depleting substances and F-gases
39. Environmental quality - Pesticides
40. Environmental quality - Spatial Data Infrastructure Standards



41. Environmental quality - Waste Packaging & Product Regulations
42. Environmental quality - Waste Producer Responsibility Regulations
43. Environmental quality - Water Quality
44. Environmental quality - Water Resources
45. Environmental quality - Biodiversity - access and benefit sharing of genetic resources
46. Equal Treatment Legislation
47. EU agencies - EU-LISA
48. EU agencies - Eurojust
49. EU agencies - Europol
50. EU Social Security Coordination
51. Fisheries Management & Support
52. Food and Feed Law
53. Food Compositional Standards
54. Food Geographical Indications (Protected Food Names)
55. Food Labelling
56. Forestry (domestic)
57. Free movement of healthcare (the right for EEA citizens to have their elective procedure in another member state)
58. Genetically modified micro-organisms contained use
59. Good laboratory practice
60. Harbours
61. Hazardous Substances Planning
62. Heat metering and billing information
63. High Efficiency Cogeneration
64. Implementation of EU Emissions Trading System
65. Ionising radiation
66. Land use
67. Late payment (commercial transactions)
68. Legal aid in cross-border cases
69. Migrant Access to benefits
70. Minimum standards -housing & care: regulation of the use of animals
71. Minimum standards legislation - child sexual exploitation
72. Minimum standards legislation - cybercrime
73. Minimum standards legislation - football disorder
74. Minimum standards legislation - human trafficking
75. Mutual recognition of professional qualifications
76. Mutual recognition of criminal court judgments measures & cross border cooperation - European Protection Order, Prisoner Transfer Framework Directive, European Supervision Directive, Compensation to Crime Victims Directive
77. Nutrition health claims, composition and labelling
78. Onshore hydrocarbons licensing
79. Organs
80. Plant Health, Seeds and Propagating Material
81. Practical cooperation in law enforcement - Asset Recovery Offices
82. Practical cooperation in law enforcement - European Investigation Order
83. Practical cooperation in law enforcement - Joint Action on Organised Crime

84. Practical cooperation in law enforcement - Joint investigation teams
85. Practical cooperation in law enforcement - mutual legal assistance
86. Practical cooperation in law enforcement - mutual recognition of asset freezing orders
87. Practical cooperation in law enforcement - mutual recognition of confiscation orders
88. Practical cooperation in law enforcement - Schengen Article 40
89. Practical cooperation in law enforcement - Swedish initiative
90. Practical cooperation in law enforcement - European judicial network
91. Practical cooperation in law enforcement - implementation of European Arrest Warrant
92. Procedural rights (criminal cases) - minimum standards measures
93. Provision of legal services
94. Provision in the 1995 Data Protection Directive (soon to be replaced by the General Data Protection Regulation) that allows for more than one supervisory authority in each member state
95. Public sector procurement
96. Public health (serious cross-border threats to health)
97. Radioactive Source Notifications – Trans-frontier shipments
98. Radioactive waste treatment and disposal
99. Rail franchising rules
100. Rail markets and operator licensing
101. Recognition of insolvency proceedings in EU Member States
102. Renewable Energy Directive
103. Rules on applicable law in civil & commercial cross border claims
104. Sentencing - taking convictions into account
105. State Aid
106. Statistics
107. Strategic Environmental Assessment (SEA) Directive
108. Tissues and cells
109. Uniform fast-track procedures for certain civil and commercial claims (uncontested debts, small claims)
110. Victims rights measures (criminal cases)
111. Voting rights and candidacy rules for EU citizens in local government elections



Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0420/17

Huw Irranca-Davies AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[SeneddCLA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCLA@cynulliad.cymru)

17 Gorffennaf 2017

## **Y BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU)**

Ysgrifennais atoch ar 7 Mehefin i ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnllys Addysg (Cymru) ('y Bil'). Yn y llythyr hwnnw, ac yn ystod y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil ar 6 Mehefin, fe wnes i ddatgan fy mwriad i ysgrifennu atoch gydag ymateb manwl i bob un o 12 argymhelliad y Pwyllgor. Mae'r ymateb hwn wedi'i ddarparu isod; mae'n seiliedig ar ystyriaeth ofalus a manwl ac mae'n adlewyrchu fy marn bresennol ar y materion allweddol i'w datrys yn y Bil. Wrth gwrs, bydd yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach a gynhelir yn ystod gweddill y tymor hwn, i waith a gyflawnir dros doriad yr haf ac i waith craffu pellach ar y Bil yng Nghyfnod 2.


Mae'r ymateb i bob argymhelliad yn nodi a wyf yn derbyn yr argymhelliad neu'n ei dderbyn mewn egwyddor (yn amodol ar ystyriaeth a thrafodaeth bellach). Lle nad wyf yn derbyn argymhelliad, rwyf wedi amlinellu fy sail resymegol dros y penderfyniad hwnnw. Rwyf wedi nodi hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, y bydd derbyn argymhelliad yn gofyn am wneud gwelliant pellach i'r Bil.

Fel y gwelwch, rwy'n derbyn (yn llawn neu'n rhannol) neu'n derbyn mewn egwyddor 8 o 12 argymhelliad y Pwyllgor. Yn wir, mae amryw o'r materion allweddol a gododd yn eich adroddiad yn cyd-fynd â gwelliannau mae'r Llywodraeth eisoes wedi'u cyflwyno. Rwy'n bwriadu mynd i'r afael ag argymhellion eraill trwy welliannau a gyflwynir mewn cyfrannau dilynol cyn i'r ffenestr gyflwyno ar gyfer gwelliannau Cyfnod 2 gau ar 25 Medi.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn eich helpu i lywio eich gwaith craffu pellach ar y Bil ac yn dangos fy ymrwymiad i wrando a chydweithredu i ddarparu'r darn o ddeddfwriaeth mwyaf effeithiol a fydd yn gwella bywydau plant a phobl ifanc. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd trwy ei gyfnodau pellach.

Byddaf yn ysgrifennu hefyd at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1. Rwy'n anfon copi o bob un o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

**Alun Davies AC/AM**  
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

### Argymhelliad 1

*Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn cyfiawnhau pam mae angen y pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 12(7)(c), 50(3), 60(1) a 68(4) o'r Bil.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n croesawu'r cyfle i esbonio pam rwy'n credu bod y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn ofynnol neu pam rwy'n credu nad ydynt yn ofynnol.

Mae **adran 12(7)(c)** yn galluogi rheoliadau i amlinellu mathau eraill o ddarpariaeth efallai y bydd angen i awdurdod lleol eu gwneud i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr o ran darpariaeth dysgu ychwanegol, os bydd tystiolaeth o'r fath yn dod i'r amlwg pan fydd y system newydd ar waith. Gall dileu'r pŵer hwn i wneud rheoliadau wneud y system yn llai ymatebol i dystiolaeth o'r fath yn dod i'r fei. Fodd bynnag, o bwysu a mesur pob dim a chnoi cil ar y mater, rwyf wedi penderfynu bod y ddadl o blaid cadw'r pŵer hwn yn llai grymus. Nid yw'r system bresennol ar gyfer cefnogi dysgwyr wedi darparu unrhyw dystiolaeth y byddai angen darpariaeth heblaw'r ddarpariaeth honno sydd eisoes wedi'i nodi yn adran 12(7) er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc o ran darpariaeth dysgu ychwanegol. Felly, rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r pŵer yn adran 12(7)(c).

Mae **adran 50(3)** yn darparu pŵer i ychwanegu neu ddileu eithriadau i'r gwaharddiad cyffredinol ar osod person ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol nad yw ar y rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer hwn wedi'i gynnwys yn y Bil er mwyn cwmpasu amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld a all godi ar ôl i'r system newydd gael ei rhoi ar waith. Er bod y sail resymegol dros gadw'r ddarpariaeth hon yn debyg i'r sail resymegol mewn perthynas ag adran 12(7)(c), credaf fod y risgiau sy'n gysylltiedig â dileu'r ddarpariaeth yn fwy tebygol o gael eu gwireddu a chael effaith fwy andwyol ar bobl ifanc. Mewn rhai achosion, er enghraifft, efallai y daw'n glir mai'r ffordd orau o gyflawni buddiannau addysgol pobl ifanc ag anghenion arbenigol iawn yw trwy eu lleoli mewn lleoliadau tymor byr iawn neu leoliadau achlysurol iawn ond lle nad yw'r sefydliadau arbenigol dan sylw yn ystyried ei bod hi'n werth iddynt wneud cais i gael eu hychwanegu at y rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru oherwydd natur tymor byr neu achlysurol lleoliadau o'r fath.

Os gwelwn fod hyn yn wir, efallai y bydd modd, trwy reoliadau ac ar sail yr achosion sy'n codi, galluogi bod eithriad neu eithriadau'n cael eu creu i'r ddyletswydd gyffredinol. Os na fydd gennym y pŵer hwnnw, efallai y bydd pobl ifanc agored i niwed o dan anfantais. Mae adran 50 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n newydd ac nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaethau cyfwerth o dan y gyfraith bresennol. O ganlyniad, ni allwn wybod ar yr adeg hon pa sefyllfaoedd afreolaidd a all godi. Yn fy marn i, mae rhywfaint o hyblygrwydd i wneud mân addasiadau i'r system ddeddfwriaethol fel y gall ymateb yn briodol i'r senarios posibl hyn yn gwbl gymesur. Felly, credaf y dylid cadw'r pŵer yn adran 50(3).

Mae **adran 60(1)** yn galluogi gwneud rheoliadau i ganiatáu i awdurdodau lleol gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i eraill mewn perthynas â materion anghenion dysgu ychwanegol ar delerau ac amodau y gellid darparu ar eu cyfer yn y rheoliadau. Mae yna ddarpariaeth debyg mewn cyfraith bresennol sy'n caniatáu cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i gyrff llywodraethu ysgolion i'w helpu i wneud darpariaeth addysgol arbennig (adran 318 o Ddeddf Addysg 1996), ac mae yna reoliadau sy'n ymdrin â thelerau talu (*Education (Payment for Special Educational Needs Supplies) Regulations 1999 OS 1999/710*). Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol sy'n cyflenwi adennill y gost lawn, ond dim mwy, lle mae'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i ysgol nad yw'n ei chynnal mewn ardal awdurdod lleol arall.

Yn fy marn i, mae'r pŵer yn adran 60 yn angenrheidiol. Er mwyn i'r system newydd weithio, mae'n debygol y bydd angen i awdurdodau lleol gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i eraill o bryd i'w gilydd, er enghraifft, fel y gall darpariaeth dysgu ychwanegol gael ei darparu i berson o ardal yr awdurdod lleol sy'n cael ei gadw mewn llety ieuencid perthnasol. Efallai y bydd swyddogaethau cyffredinol awdurdod lleol yn caniatáu iddo gyflenwi nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiad â materion anghenion dysgu ychwanegol o dan rai amgylchiadau, ond ni fyddai'r pwerau eraill hynny o reidrwydd yn cwmpasu'r holl amgylchiadau a allai gael eu cwmpasu gan y pŵer hwn. Byddai adran 60 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi pwerau clir i awdurdodau lleol, ynghyd â rhoi cwmpas i gyfyngu ar y sail ar gyfer cyflenwi'r nwyddau a'r gwasanaethau.

Rwy'n rhagweld y byddaf yn gwneud rheoliadau i roi pŵer penodol i awdurdodau lleol ac yn cynnwys darpariaeth i atal elw rhag cael ei wneud.

Mae **adran 68(4)** yn nodi nad yw Rhan 1 o Ddeddf Cyflafareddu 1996 yn berthnasol i achosion yn y Tribiwnlys Addysg, ond bod rheoliadau'n gallu gwneud darpariaeth gyfatebol. Mae'r pŵer yn ailddatganiad o ddarpariaeth bresennol a amlinellwyd yn Neddf Addysg 1996 mewn perthynas â gweithdrefnau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Rydym yn dal i ystyried y mater a gododd y Pwyllgor yn ei adroddiad.

## **Argymhelliad 2**

*Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ailystyried a ddylai'r gofynion a gaiff eu cynnwys yn y Cod yn unol ag adran 4(4) o'r Bil gael eu rhoi yn lle hynny naill ai ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau.*

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi ystyried y cynnig yn yr argymhelliad hwn yn ofalus, ond rwy'n dal i gredu bod y cydbwysedd presennol rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil, yr hyn a amlinellir mewn rheoliadau a'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys yn y Cod yn briodol. Felly, byddem yn gwrthwynebu gwelliant o'r fath.

Bwriad y Cod yw darparu canllawiau a gofynion clir ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu'r system newydd. Bydd yn 'llawlyfr' ymarferol a hygyrch ar gyfer ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, a dyma'r brif ffordd y byddant yn gweithio'u ffordd trwy'r system newydd. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym bod angen

'dannedd' ar y Cod er mwyn iddo fod yn gwbl effeithiol. Rydym yn gwneud hyn trwy roi pŵer iddo osod gofynion gorfodol. Heb y pŵer hwn, bydd y Cod yn cael ei gyfyngu i ddarparu canllawiau a chyfeirio at y gofynion gorfodol a amlinellir mewn manau eraill. Felly, bydd ei statws a'i safiad yn llai o faint, a fyddai'n gwbl groes i'w canllawiau clir rydym wedi'u cael gan ymarferwyr.

Yn fy marn i, ni fyddai'n briodol i amlinellu ar wyneb y Bil Iefel y manylder technegol am faterion gweithredol a fydd yn destun llawer o'r gofynion gorfodol bwriedig. O ystyried natur weithredol y gofynion, a'r gwaith mireinio a fydd yn ofynnol dros amser, byddai eu gosod yn unrhyw le heblaw mewn is-ddeddfwriaeth yn anymarferol ac annymunol. Credaf hefyd y byddai'n annymunol gosod y gofynion hyn mewn rheoliadau yn hytrach nag yn y Cod. Mae eu cael nhw yn y Cod yn fwy ymarferol a hygyrch i ymarferwyr – gallant weld union eiriad y gofyniad ochr yn ochr â chanllawiau cysylltiedig ac enghreifftiau sy'n gallu helpu i esbonio'r gofyniad. Bydd y Cod yn nodi'n glir pa rai o'i ddarpariaethau sy'n orfodol o dan adran 4(4) o'r Bil. Byddwn yn ychwanegu, yng ngoleuni'r sylwadau isod mewn perthynas ag argymhelliad 3, y bydd y weithdrefn ar gyfer gwneud y Cod yr un mor gadarn ag unrhyw reoliadau y byddwn yn eu gwneud.

### **Argymhelliad 3**

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn uwch-gadarnhaol ar gyfer gwneud cod o dan adran 5.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn gan fy mod eisoes wedi cyflwyno gwelliant i'w gwneud hi'n ofynnol bod y Cod (ac unrhyw Godau diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

Ar wahân, rwy'n ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn amlinellu cynnig i sicrhau bod y Pwyllgor yn cyfrannu'n llawn at y cyfnod ymgynghori ar ddatblygiad y Cod a'r ystyriaeth ohono.

### **Argymhelliad 4**

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf yn achos rheoliadau a wneir o dan adrannau 13(2) ac 14(2), ac yna'r weithdrefn negyddol wedi hynny.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Fy mwriad yw cyflwyno gwelliannau i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol pan fydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf.

### **Argymhelliad 5**

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 30 i roi amserlen ar gyfer gwneud apêl ar wyneb y Bil. Os bydd yn rhaid newid yr amserlen maes o law, dylid gwneud hynny drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.*

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn. Er fy mod yn cydnabod y rhesymau dros roi ar wyneb y Bil yr amserlen ar gyfer gwneud cais i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad corff llywodraethu nad oes gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol mwyach, mae risgiau'n gysylltiedig â sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn briodol ag amserlenni eraill sydd i'w hamlinellu yn y Cod. Credaf mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r gwahanol amserlenni hyn yw trwy eu datblygu a'u cwblhau ochr yn ochr â'i gilydd fel bod integriti'r broses gyfan yn cael ei gynnal.

### **Argymhelliad 6**

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 36(2).*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn **mewn egwyddor**, yn amodol ar ystyriaeth bellach o'r cysylltiad â rheoliadau a wneir o dan adran 562J(4) o Ddeddf Addysg 1996 ac arfer y pwerau hyn yn gyson gyda'r nod bod y gyfraith yn hygyrch.

### **Argymhelliad 7**

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn dileu'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 45(2)(d). Fan lleiaf, dylai'r pŵer presennol yn y Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwyf eisoes wedi cyflwyno gwelliannau i ddileu'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 45(2)(d).

### **Argymhelliad 8**

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 58(5) i roi'r cyfnod a ragnodir (ac unrhyw eithriadau sy'n gymwys) ar gyfer cydymffurfio â chais am wybodaeth ar wyneb y Bil. Os bydd yn rhaid newid y cyfnod a ragnodir maes o law, dylid gwneud hynny drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.*

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae'n debygol y bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer a nodir yn adran 58(5) o'r Bil yn amlinellu ystod o gyfnodau pan fydd rhaid i wahanol gyrff gydymffurfio â gwahanol fathau o geisiadau am help a gwybodaeth; o ganlyniad, byddai cael un dyddiad ar wyneb y Bil yn amhriodol. Yn ogystal, wrth osod y cyfnod(au), mae angen i ni ystyried amserlenni ehangach ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau yn y Bil neu'r Cod, a ddarperir ar eu cyfer yn y Cod.

Bydd y Cod yn destun ymgynghoriad eang cyn y gellir ei gyflwyno. Felly, efallai na fydd unrhyw gyfnod a amlinellir yn y Bil ar hyn o bryd yn briodol o reidrwydd, ac efallai y bydd rhaid ei newid o'r cychwyn.

Rwy'n nodi hefyd fod yna bŵer o dan y system Anghenion Addysgol Arbennig bresennol i osod cyfnodau o'r fath mewn rheoliadau (yn benodol yn adran 322(4) o Ddeddf Addysg 1996, a'r rheoliadau yw Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 OS 2002/152).



## Argymhelliad 9

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 69 i roi amserlen ar gyfer cydymffurfio â gorchymyn Tribiwnlys Addysg Cymru ar wyneb y Bil. Os bydd yn rhaid newid yr amserlen maes o law, dylid gwneud hynny drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.*

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn. Ni fyddai'n briodol rhoi amserlen ar gyfer cydymffurfio â Gorchymyn Tribiwnlys Addysg Cymru ar wyneb y Bil. Bydd Gorchymynion yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach wneud pob math o wahanol bethau, yn dibynnu ar natur yr apêl sydd wedi'i hystyried. Bydd gwahanol gategorïau o Orchymyn yn gofyn am wahanol amserlenni ar gyfer cydymffurfio, a gallent fod yn gysylltiedig ag amserlenni ar gyfer materion eraill a amlinellir yn y Cod, felly byddant yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ar wahân. Ni fyddai cael un cyfnod ar wyneb y Bil yn darparu unrhyw hyblygrwydd i fynd i'r afael â hyn.

Mae amserlenni ar gyfer cydymffurfio â Gorchymynion a gyhoeddir gan Dribiwnlys AAA Cymru o dan y system bresennol wedi'u hamlinellu mewn rheoliadau. Felly, nid oes unrhyw beth newydd na dadleuol am y dull yma.

## Argymhelliad 10

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn dileu'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 82. Fan lleiaf, dylai'r pŵer presennol yn y Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.*

Rwy'n **derbyn** ail ran yr argymhelliad hwn, ond nid y rhan gyntaf. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn darparu hyblygrwydd i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â pherson sydd "yn ardal" awdurdod lleol yng Nghymru, a all fod yn ddymunol os bydd unrhyw anawsterau neu ansicrwydd yn codi ynghylch beth mae'n ei olygu mewn sefyllfaoedd penodol. Er efallai na fydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol agos, nid wyf wedi fy narbwyllo y byddai'n briodol ei ddileu. Fodd bynnag, rwy'n derbyn yr argymhelliad y dylid symud i'r weithdrefn gadarnhaol, ac rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

## Argymhelliad 11

*Rydym yn argymell y dylid diwygio'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil er mwyn rhoi esboniad digonol o Atodlen 1.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Bydd y Nodiadau Esboniadol yn cael eu diwygio cyn Cyfnod 3 yn ôl yr arfer, a byddant yn cynnwys esboniad digonol o'r Bil a'i Atodlenni.

## Argymhelliad 12

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 86(8).*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant o'r fath.



Ein cyf/Our ref MA(L)ARD/0549/17

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
[SeneddPPIA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddPPIA@cynulliad.cymru)

cc Simon Thomas AC  
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid

cc Huw Irranca-Davies AC  
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

[SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)  
[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)

Y Cynulliad Cenedlaethol  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

7 Medi 2017

Annwyl Lynne,

Parthed fy llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf 2017, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad cam 1 am Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ('y Bil'), fe wnes i ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar weithredu'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Byddaf yn gwneud hyn drwy anfon diweddariadau bob chwarter, a'r llythyr hwn yw'r cyntaf ohonynt.

Mae'r rhaglen yn cynnwys pum elfen:

### Canllawiau statudol a deddfwriaethol

Elfen gynta'r rhaglen yw'r canllawiau statudol a deddfwriaethol, sy'n cynnwys y Bil, memorandwm esboniadol, rheoliadau a'r Cod ADY a fydd yn cynnwys gofynion gorfodol. Byddaf yn anfon llythyr pellach gyda'r asesiad effaith rheoleiddiol diwygiedig atoch ar 11 Medi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf hefyd diweddarau'r pwyllgor ar fy ystyriaeth o argymhelliad 17 o adroddiad cam 1 y pwyllgor, sy'n dweud: "Dylai'r Gweinidog roi esboniad pellach ynglŷn â pham mae ysgolion arbennig wedi'u tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y byddai'r ddyletswydd i ddynodi Cydlynnydd ADY ar eu cyfer yn berthnasol iddynt."

Gofynnais i'm swyddogion ysgrifennu at ysgolion arbennig er mwyn cael eu barn ynglŷn ag a ddylid rhoi gofyniad arnynt i fod â Chydlynnydd ADY. O'r 39 o ysgolion a holwyd am ymateb cyn gwyliau'r haf, atebodd 15; 10 yn nodi na fyddent o blaid dyletswydd statudol i benodi Cydlynnydd ADY.

Roedd wyth o'r 10 a wrthwynebodd ddyletswydd yn glir o'r farn bod pob athro mewn ysgol arbennig yn ysgwyddo rôl Cydlynnydd ADY, a bod penaethiaid a chydweithwyr eraill yr uwch dîm arwain yn cyflawni dyletswyddau penodol eraill. Mae hyn yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru fel yr adleisiwyd yn narpariaethau'r Bil ac a esboniwyd yn fy ymateb i argymhelliad y pwyllgor. Codwyd materion penodol gan ddau o'r pum pennaeth a oedd o blaid dyletswydd statudol ynghylch hyfforddiant, cyllido, cydweithio, datblygiad staff cyffredinol a chyfleoedd datblygu i athrawon â gwybodaeth arbenigol o ADY. Cafwyd sylw tebyg gan bedwar o'r 10 pennaeth a oedd yn gwrthwynebu Cydlynwyr ADY statudol.

Mae pryder ymhlith rhai ysgolion arbennig, sef os nad oes ganddynt Gydlynwyr ADY dynodedig y gallent felly gollu allan ar rywfaint o'r cyllid, hyfforddiant a'r mentrau cydweithio a ddaw law yn llaw â chyflwyno'r rôl hon mewn ysgolion prif ffrwd. Er bod y rhain yn faterion pwysig, credwn fod modd mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r rhaglen trawsnewid ehangach, ac rydym o'r farn na ddylai gofyniad y Bil ar leoliadau addysg i ddynodi Cydlynwyr ADY ymestyn i gynnwys ysgolion arbennig. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau ag ysgolion arbennig wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen.

## **Cymorth gweithredu / trawsnewid**

Ym mis Mawrth 2016, sefydlwyd Grŵp Gweithredu Strategol ADY gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r trefniadau ar ddatblygu cynlluniau gweithredu parhaus er mwyn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd lleol ac eraill i baratoi ar gyfer rhaglen trawsnewid ADY gan gynnwys y newidiadau statudol sydd yn y Bil. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis i drin a thrafod atebion ymarferol ac yn darparu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi popeth ar waith.

Mae'r Grŵp Gweithredu hwn wedi sefydlu grwpiau arbenigol er mwyn rhoi ystyriaeth fanwl i nifer o faterion technegol wrth roi'r system ADY newydd ar waith, gan gynnwys:

- Cynlluniau datblygu unigol
- Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)
- Darpariaeth ADY y blynyddoedd cynnar
- Darpariaeth ADY ôl-16
- Pontio rhwng lleoliadau, darparwyr ac i fyd oedolion
- Iechyd
- Hyfforddiant
- Plant sy'n derbyn gofal

Daeth yr holl grwpiau arbenigol at ei gilydd mewn gweithdy deuddydd fis Mawrth 2017, ac maen nhw wedi gweithio tuag at gyfres o gamau gweithredu cytûn ers hynny.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddais gronfa arloesi ADY gwerth £2.1 miliwn hyd at 31 Mawrth 2018. Nod y grant hwn yw cefnogi prosiectau partneriaeth rhanbarthol sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY. Nod y grant yw helpu i ddatblygu dulliau ac arferion cyflawni creadigol a chydweithredol er mwyn gwella systemau, trefniadau a pherthnasau. Hefyd, mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau addysg bellach a byrddau iechyd lleol. Mae prosiectau a sefydlwyd yn y flwyddyn gyntaf wrthi'n cael eu datblygu, a bydd grŵp arbenigol perthnasol yn adolygu'r canlyniadau.

Ym mis Chwefror 2017, lansiais ymgynghoriad am sut y dylid rhoi'r Bil ar waith pe bai'n derbyn Cydsyniad Brenhinol. Daeth i ben ar 9 Mehefin ac mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymatebion ar hyn o bryd. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi'r tymor hwn, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad am ein dull gweithredu arfaethedig. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi arweiniad ar y pontio gyda chanllawiau manwl i bartneriaid cyflawni i gefnogi'r broses weithredu.

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf am greu pum arweinydd trawsnewid ADY a fydd yn helpu partneriaid cyflawni i baratoi at weithredu'r drefn newydd. Mae'r broses recriwtio ar waith nawr, a dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn eu lle cyn diwedd y flwyddyn. Bydd y swyddi hyn yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at weithredu cynlluniau a chyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r Bil fesul tipyn fel rhan o'n datblygiad sgiliau craidd (gweler isod).

Mae'r gwaith o fonitro a gwerthuso proses weithredu'r Bil wedi dechrau, ar gamau allweddol o'r broses weithredu yn barod ar gyfer y system newydd; cydymffurfio â darpariaethau'r Bil unwaith y daw'r system i rym; a monitro effaith y Bil dros y tymor hir. Mae Arad Research a Phrifysgol De Cymru wedi cael contract i gynnal asesiad llinell sylfaen o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) gyfredol, a fydd yn llywio gwerthusiad o effaith y newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae fy swyddogion wedi bod yn cysylltu ag Estyn er mwyn cydlynu ffordd o fonitro parodrwydd i weithredu; bydd Estyn yn canolbwyntio peth o'i waith arolygu thematig eleni ar barodrwydd sefydliadau addysg i'r system ADY newydd. Bydd arweinwyr trawsnewid ADY yn helpu partneriaid cyflawni i gynnal hunanasesiadau o barodrwydd er mwyn nodi pa feysydd i ganolbwyntio arnynt wrth baratoi i drawsnewid i'r system ADY newydd.

## **Datblygu'r gweithlu**

Rhaglen datblygu sgiliau ar gyfer ymarferwyr sy'n helpu dysgwyr ag ADY yw'r elfen hon, ac mae'n canolbwyntio ar dair lefel: datblygu sgiliau craidd; datblygu sgiliau uwch; a datblygu sgiliau arbenigol. Mae'r dull hwn o weithredu'r agwedd hon ar y rhaglen yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r grŵp hyfforddiant arbenigol a'r grŵp arbenigol Cydlynwyr ADY.

Bydd datblygiad sgiliau craidd yn darparu adnoddau hyfforddi a datblygu a chyfleoedd i bob ymarferydd wella ei sgiliau, ei wybodaeth a'i hyder er mwyn cefnogi dysgwyr ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol cyffredin iawn ond llai cymhleth o fewn lleoliadau a chael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r dasg o ddatblygu sgiliau craidd eisoes wedi cychwyn gyda'r rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth, a ddatblygwyd gan y tîm Anhwylder Sbectrwm Awtistig Cenedlaethol a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig adnoddau am ddim i ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a hyfforddiant i athrawon a staff cymorth. Mae'r rhaglen, sydd ar gael ar wefan ASD Info Wales, ar gael i ysgolion cynradd ac wedi'i chwblhau gan dros 4,000 o staff a 10,000 o ddisgyblion. Mae'r rhaglen yn cael ei hymestyn i ysgolion uwchradd, y blynyddoedd cynnar, addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Bydd datblygu sgiliau uwch yn cefnogi rôl Cydlynwyr ADY, a fydd yn cymryd lle'r Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol.

Mewn perthynas ag argymhelliad 14 o adroddiad cam 1 y pwyllgor - "Dylai'r Gweinidog ailystyried ei ymagwedd tuag at gymwysterau ar gyfer Cydlynwyr ADY, a'i gwneud hi'n glir wrth symud ymlaen, y dylai cymhwyster Meistr fod yn ddymunol yn hytrach nag yn ofynnol" ac argymhelliad 15 - "Dylai'r Gweinidog ystyried a fyddai'n ddymunol ystyried bod cymwysterau a setiau sgiliau eraill, ar lefel debyg i gymhwyster Meistr, yn briodol ar gyfer Cydlynwyr ADY" - mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r arbenigwyr er mwyn nodi gofynion sgiliau a hyfforddiant y proffesiwn.

Mae datblygu sgiliau arbenigol yn cynnwys staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol, er enghraifft, seicolegwyr addysg ac athrawon plant â nam ar eu golwg neu'r clyw. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Uned Ddata er mwyn casglu data gan awdurdodau lleol am eu gweithlu cyfredol (gan gynnwys cymwysterau, demograffeg, sgiliau ieithyddol ac ati) ynghyd â swyddi gwag cyfredol a rhai a ragwelir. Unwaith mae'r canlyniadau ar gael, byddaf yn eu defnyddio i ystyried ein cymorth tuag at hyfforddiant arbenigol i ôl-raddedigion.

## **Codi ymwybyddiaeth**

Ym mis Chwefror a mis Mawrth eleni, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol a fynychwyd gan dros 800 o ymarferwyr a rhieni. Mynychais un o'r digwyddiadau hyn yng Nghasnewydd, ac roeddwn i'n hapus iawn gyda'r niferoedd oedd yn bresennol a'r adborth cadarnhaol i'r sesiwn.

Mae ein gwaith helaeth â rhanddeiliaid yn parhau, ac rydym yn cynllunio rhaglen o weithgareddau i esbonio a hyrwyddo'r system newydd a'r hawliau i blant, eu rhieni a phobl ifanc.

## **Polisi ategol**

Pwyslais yr elfen hon o'r rhaglen yw cynhyrchu polisi a chanllawiau er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu cefnogi a'u gwreiddio yn y system AAA gyfredol a system ADY y dyfodol.

Eleni, er mwyn cefnogi ymarferwyr, rydym wedi cyhoeddi: canllawiau ar gyllid ôl-16 i ddysgwyr ag anawsterau dysgu mewn colegau arbenigol; cyngor i awdurdodau lleol a gweithwyr addysg proffesiynol ynghylch rôl Cydlynwyr AAA; arweiniad i ymarferwyr addysgu i helpu dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol a chanllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol ar gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Er mwyn helpu i gynllunio a chyflwyno ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol i helpu plant a phobl ifanc gyda ADHD, ASD, nam ar y clyw, nam gweledol a namau amlsynhwyrdd, rydym wedi dyfarnu contractau i Bazian, SQW a Phrifysgol Birmingham er mwyn cynnal asesiadau tystiolaeth cyflym a fydd yn llywio canllawiau hygyrch ar ymyriadau y gwyddys eu bod yn effeithiol i gefnogi pobl ifanc â mathau penodol o AAA.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ar waith y rhaglen trawsnewid ddiwedd Tachwedd.

Rwy'n anfon copïau o'r llythyr hwn at gadeiryddion y pwyllgorau Cyllid a Materion  
Cyfansoddiadol a Chyfreithiol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath.

**Alun Davies AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Carl Sargeant AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CS/0496/17

Huw Irranca-Davies AC  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12<sup>th</sup> Medi 2017

Annwyl Huw

## **BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eich ystyriaeth o Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus yr argymhellion sydd yn adroddiad y Pwyllgor ac mae fy ymateb i bob un wedi'i nodi isod:

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro ei resymeg yn llawn yn ystod y ddadl Cyfnod 1 dros gyflwyno Bil sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol y DU yn hytrach nag un sy'n cydgrynhoi ac sy'n annibynnol.**

Fel yr esboniais yn ystod y ddadl ar 18 Gorffennaf, mae'r Bil yn diddymu'r hawl i brynu, a sefydlwyd yng Nghymru a Lloegr gan ddeddfwriaeth sy'n dyddio'n ôl i 1985. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid iddo ddiwygio deddfwriaeth bresennol Cymru a Lloegr i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru.

Er mwyn cyfuno'r diwygiadau angenrheidiol hyn gyda darpariaeth annibynnol yn y Bil, byddai angen ailddatganiad helaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â'r hawl i brynu am gyfnod dros dro yn unig - a hynny mewn Bil sydd â'r unig ddiben o ddiddymu'r hawl yn hytrach na gwneud darpariaeth amdani. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo hygyrchedd a chydlyniaid cyfraith ddwyieithog Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales](mailto:Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and the correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Tudalen y pecyn 74**

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil, sef gosod dyletswydd absoliwt ar Weinidogion Cymru i ddarparu copi i bob landlord cymwys yng Nghymru o'r wybodaeth sydd wedi'i gosod yn adran 8.

Rwyf wedi ailystyried yr argymhelliad hwn yn dilyn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu nad oes angen dyletswydd absoliwt gan fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o'r holl landlordiaid cymwys yng Nghymru a bydd yn cysylltu â hwy yn unol â hynny.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r ddyletswydd gymwys bresennol ar Weinidogion Cymru i ddarparu copi o'r ddogfen wybodaeth i bob landlord cymwys (adran 8(1)(c)) fod ar gyfer landlordiaid y tu allan i Gymru yn unig, ac y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil at y diben hwnnw

Nid wyf o'r farn y dylid diwygio'r Bil fel bod y ddyletswydd gymwys bresennol i hysbysu landlordiaid ond yn berthnasol i landlordiaid y tu allan i Gymru. Mae'r drafft presennol yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar drydydd parti (yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau) i roi manylion inni am landlordiaid cymdeithasol, sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, sy'n berchen ar gartrefi sy'n cael eu rhentu yng Nghymru.

Fel y soniais yn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol, cafodd y materion a drafodwyd yn argymhellion 2 a 3 eich Pwyllgor eu hystyried gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n fodlon ar y darpariaethau cyfredol yn y Bil. Nid wyf, felly, yn bwriadu cyflwyno unrhyw welliannau mewn perthynas â'r materion hyn.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Mesur i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 9.

Mae Adran 9 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati os ydynt o'r farn ei fod yn "angenrheidiol neu'n hwylus" i wneud hynny o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan y Bil, neu a wneir o dan y Bil. Mae gan y gair "hwylus" ei ystyr ei hun ac mae'n caniatáu ar gyfer gwelliannau a allai fod yn ddymunol, yn ddefnyddiol neu sydd â budd ymarferol, ond a allai fethu prawf "anghenraid" llym. Er enghraifft, pe bai pŵer i wneud gwelliannau canlyniadol yn cael ei ddefnyddio i symleiddio trefn weinyddol a oedd yn anodd ei rhoi ar waith, neu'n anymarferol i denantiaid ddelio â hi, gellir dadlau nad oedd hyn yn bodloni'r prawf "anghenraid", gan y gallai tenantiaid fyw gyda'r anhawster, er bod hynny'n annymunol. Byddai'r dull hwn yn rhy anhyblyg a chyfyngedig a gallai atal newidiadau buddiol rhag cael eu gwneud.

Nid wyf, felly, yn bwriadu cyflwyno unrhyw welliant mewn perthynas â'r mater hwn.


**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau eglurder nad yw adran 10(1) ond yn gymwys i'r pŵer creu rheoliadau yn adran 9.

Credaf y byddai'r gwelliant, a argymhellir gan y Pwyllgor, yn egluro cwmpas y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 10(1) ac yn gwella'r Bil o ganlyniad. Rwy'n ddiolchgar am argymhelliad y Pwyllgor ar y mater hwn a byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddileu unrhyw amwysedd ynghylch geiriad adran 10(1).



I gloi, rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor a hoffwn ailadrodd fy niolch i'r Aelodau am eu hystyriaeth fanwl o'r Bil.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children





Ein cyf/Our ref: MA-L/FM/0244/17

Huw Irranca-Davies AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

30 Awst 2017

Annwyl Huw

Ym mis Rhagfyr 2015, ymatebais i argymhellion adroddiad pwyllgor eich rhagflaenydd, *Deddfu yng Nghymru*. Addewais y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* wedi iddo gael ei ddiweddarau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Rwyf heddiw yn cyhoeddi'r *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* ar wefan Llywodraeth Cymru. Canllaw mewnol i Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yw'r llawlyfr. Mae'n ymdrin â'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi deddfwriaeth sylfaenol a chefnogi Gweinidogion i fynd â'r ddeddfwriaeth drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r Rheolau Sefydlog a bydd yn cael ei ddiweddarau eto o bryd i'w gilydd i ystyried newidiadau i'r setliad datganoli a datblygiadau eraill.

Yn fy ymateb i'r adroddiad *Deddfu yng Nghymru*, mynegais fod tipyn o orgyffwrdd rhwng argymhellion y pwyllgor a'r gwaith sydd ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer cynllunio a rheoli'r rhaglen ddeddfwriaethol yn y Pumed Cynulliad.

Nodais amryw o agweddau allweddol lle yr ydym yn rhannu gweledigaeth, gan gynnwys:

- Datblygu polisi cynhwysfawr ar ddechrau'r broses ar gyfer pob cynnig deddfwriaethol
- Nodi goblygiadau ariannol a'u hystyried ar ddechrau'r broses
- Meithrin cysylltiadau'n effeithiol â rhanddeiliaid gydol y broses ddeddfwriaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Ffiliau'r Cynulliad* yn amlinellu'r hyn sy'n ofynnol gan dimau Bil ym mhob cyfnod o'r broses, o geisio cael cynnwys Bil yn rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth i gychwyn Deddf Cynulliad. Gan hynny, mae'n egluro sut y gall Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru gefnogi'r weledigaeth a rennir gennym ar gyfer deddfwriaeth.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gam ymlaen yn ein dull tryloyw ac agored o gyflawni rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth hon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a bydd copi o'r llawlyfr yn cael ei roi yn y llyfrgell.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

**CARWYN JONES**



The Right Honourable Lord  
Justice Bean  
Chairman  
Law Commission of England  
and Wales  
1<sup>st</sup> Floor, Tower  
52 Queen Anne's Gate  
London SW1H 9AG

19<sup>th</sup> July 2017

*Dear Sir David,*

## FINAL RESPONSE TO THE COMMISSION'S REPORT ON THE FORM AND ACCESSIBILITY OF THE LAW APPLICABLE IN WALES

This letter is the Welsh Government's final response to the Form and Accessibility Report, issued in accordance with the Protocol between the Law Commission and the Welsh Ministers (July 2015). To reiterate comments I have made to you before – the Report is very welcome and provides a helpful blueprint as to how the Welsh Government and others can take action to ensure the laws of Wales are more accessible.

I attach a table setting out the Welsh Government's position in respect of each recommendation of the Report. I also summarise our views below.

- **A programme of consolidation and codification (Recommendations 1, 2, 3, 14 and 15)**

The Welsh Government agrees that a sustained, long term programme of consolidation and codification of Welsh law would deliver societal and economic benefits, and is necessary in order to ensure that the laws of Wales are easily accessible. This would also make the work of the Government in developing new laws – and the work of the National Assembly in scrutinising them – considerably more straightforward and therefore more efficient.

